# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **14 Chwefror 2017** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Arwyn Thomas** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 467** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer y cyfnod 2017-2020, cyn i'r Awdurdod ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae angen i'r Cynllun gael ei gymeradwyo gan y Cabinet a'i lofnodi gan y person sydd â chyfrifoldeb statudol dros addysg o fewn yr awdurdod.

### 3 CYFLWYNIAD

Daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** i Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn y tair blynedd gyntaf o gylch cynllunio y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), rydym bellach yn symud ymlaen i'r cam cynllunio nesaf ar gyfer 2017-2020.

Gweler ynghlwm gopi draft o'r Cynllun ar gyfer 2017-20 – Atodiad 1.

### 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae'r CSGA wedi sefydlu sail gadarn ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru ac addysg iaith Gymraeg a dwyieithog. Mae cwblhau'r cylch cynllunio diwethaf wedi rhoi cyfle i fyfyrio ar beth sy'n gweithio'n dda a'r materion sydd angen eu datblygu.

Mae'r Cynllun hwn yn parhau i ganolbwyntio ar y pum deilliant yn Y Strategaeth

Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010 ac yn amlinellu sut bydd yr awdurdod yn cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth. Bydd yr awdurdod yn gorfod adolygu cynnydd yn erbyn y targedau hyn.

Dyma'r pum deilliant:

- mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel canran o garfan Blwyddyn 2;
- mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
- mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- mwy o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- mwy o ddysgwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg**.**

Mae'r Cynllun hefyd yn mynd i'r afael â safonau cyrhaeddiad mewn Cymraeg a Chymraeg ail iaith, darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a chynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Dehonglir y Strategaeth yng nghyd-destun Polisi Iaith Cyngor Gwynedd a thrwy hynny wireddu'r deilliannau. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau fod y prif elfennau yn cael eu hadlewyrchu ac yn cael sylw priodol yn y Cynllun Strategol.

## 6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cabinet, ac yna derbyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, bydd gofyn i Awdurdodau lleol ddechrau gweithredu'r CSGA o 1 Ebrill 2017.

## 7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun drafft, am gyfnod o wyth wythnos, rhwng 24 Hydref i 16 Rhagfyr 2016. Yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013, ymgynghorwyd â'r canlynol:

- Comisiynydd y Gymraeg
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Mudiad Meithrin
- Ysgolion y Sir / Cynghorau
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
- Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)
- Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG)
- Hunaniaith
- Awdurdodau Lleol cyfagos
- Gwasanaethau y Cyngor

Nodir isod grynodeb o natur y sylwadau a dderbyniwyd, a'r prif negeseuon:

- Gwerthfawrogir bod Cyngor Sir Gwynedd yn ymwybodol o'r rôl bwysig

sydd ganddi o ran hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, yng nghyd-destun amcanion a thargedau Llywodraeth Cymru.
- Cadarnhaol gweld fod Siarter Iaith Gwynedd bellach wedi ei fabwysiadu yn genedlaethol.
- Nodau priodol ar gyfer pob deilliant.
- Angen i'r targedau fod yn fwy heriol mewn rhai adrannau.
- Pryderon o ran y dilyniant i'r sector uwchradd.
- Angen cryfhau'r Cynllun ymhellach mewn rhai adrannau drwy ymhelaethu ar rai datganiadau a chynnwys datganiadau ynglŷn â digonolrwydd y gweithgareddau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer y cyfnod 2017-2020.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau a'r ymatebion a dderbyniwyd (9 i gyd) wrth addasu'r Cynllun.

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

Prif Weithredwr:

Mae'r Cynllun sydd gerbron o'r pwys mwyaf. Mae'n arbennig o bwysig yn awr am sawl rheswm. Yn gyntaf, mae gwaith yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg ac adroddiad diweddar i'r Pwyllgor Craffu wedi dangos, er ein bod fel sir mewn sefyllfa dda iawn o gymharu â siroedd eraill, bod gwir angen cymryd camau buan a pendant iawn i weithredu, er enghraifft, i gynyddu'r nifer sydd yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl cyrraedd y sector uwchradd. Yn ail, mae angen deall a gweithredu rhan Gwynedd o darged y Llywodraeth ar gyfer cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Yn olaf, mae angen i ffocws y Cyngor fod nid yn unig ar y gallu i siarad Cymraeg ond hefyd y defnydd ohono gan ein pobl ifanc o ddydd i ddydd.

Prif Swyddog Cyllid:

Derbyniwyd cadarnhad gan awdur y Cynllun Strategol mai'r disgwyliad yw i'r Adran Addysg a'r ysgolion gyflawni'r cynllun o fewn eu hadnoddau cyfredol. Yn ogystal ag adnoddau beunyddiol yr ysgolion, defnyddir elfen o'r Grant Gwella Addysg er mwyn cyflogi 13 Cyd-gysylltydd Iaith Dalgylchol, a bydd gwaith rheiny yn greiddiol i sicrhau'r deilliannau.

Swyddog Monitro:

Fe nodir yn yr adroddiad fod paratoi y Strategaeth bellach yn ofyn statudol sydd yn ddarostyngedig i gamau penodol. Mae'n ofyn fod ymgynghori yn rhan o'r broses a hynny gyda budd-ddeiliaid penodol. Adroddir ar hyn mewn modd priodol yn yr adroddiad.

---

**Atodiad 1** – Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 (Drafft).